# Cartref Plant Diogel Hillside

Cartref Plant Diogel yn ardal Castell-nedd Port Talbot, Cymru yw Hillside. Mae 14 o Gartrefi Plant Diogel yn rhan o'r Rhwydwaith Llety Diogel yn y Deyrnas Unedig, a Hillside yw'r unig un yng Nghymru. Mae Hillside yn cynnwys tri chartref o'r enw Nedd, Afan a Tawe. Mae'n gartref i fechgyn a merched rhwng 10 a 18 oed sy'n cael eu hatgyfeirio trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa (YCS) neu'r Uned Comisiynu Lles Diogel (SWCU).

Mae CPD Hillside yn defnyddio dull gweithredu therapiwtig, yn unol â'r Model Adferiad yn Dilyn Trawma. Ochr yn ochr â hynny, mae staff Hillside yn gweithio yn unol â'r Dull Gweithredu Hawliau Plant, gan sicrhau bod y plant yn cael y cyfleoedd a ddymunant. Mae hyn yn sicrhau bod gan y plant lais a rheolaeth a bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo. Mae Hillside yn defnyddio dull amlasiantaeth a chydgynhyrchu yn eu gwaith i gefnogi'r plant a chynnig gofal o ansawdd uchel.

Mae'r plant yn cael mynediad i gyngor ieuenctid a grëwyd gan y plant yn Hillside. Enw'r cyngor yw 'L.O.V.E'- Let Our Voices Explode. Mae'r fforwm yma'n fodd i'r plant sy'n byw yn CPD Hillside gael llais, ac mae'n rhoi pŵer iddyn nhw newid gwahanol bethau sy'n digwydd yn y Cartref a dylanwadu arnynt. Cynhelir cyfarfod bob mis sy'n agored i'r holl blant, lle gallan nhw godi pwyntiau trafod neu drafod mater a bennwyd ar eu cyfer. Caiff y plant anogaeth i gymryd rhan ac ymwneud â chyflwyno newidiadau yn y meysydd sy'n effeithio arnyn nhw o ddydd i ddydd.

Yn ogystal, mae'r plant yn cael cyfarfodydd wythnosol yn y cartrefi lle maen nhw'n byw. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i drafod canlyniadau cadarnhaol a gafwyd yn ystod yr wythnos a chodi unrhyw syniadau eraill. Mae'r cyfarfod hwn hefyd yn gallu cynnwys trafodaeth am unrhyw weithgareddau yr hoffen nhw eu gwneud neu unrhyw eitemau a fyddai'n cyfrannu at eu llesiant y mae angen eu prynu ar gyfer eu cartref.

Mae staff CPD Hillside wedi cael hyfforddiant ynghylch CCUHP a hyrwyddo hawliau plant. Ethos Hillside yw "Gwella llesiant plant a phobl ifanc" er mwyn grymuso "Bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd, er mwyn bod y gorau gallan nhw fod".

Mae holl bolisïau Hillside yn amlygu hawliau'r plentyn ac yn cael eu trafod yn aml trwy Grŵp L.O.V.E. Y polisi diweddaraf i gael sylw oedd y 'Polisi Bwlio', lle bu'r plant yn darllen trwy'r polisi a mynegi barn ar yr hyn roedden nhw'n teimlo bod angen ychwanegu ato. Ar ben hynny, mae prosesau sy'n effeithio ar blant yn ystod eu hamser yn Hillside hefyd yn cael eu harchwilio gyda'r plant yn gyntaf, a chaiff eu barn ei chymryd i ystyriaeth bob amser a'i rhoi ar waith. Enghraifft ddiweddar o hyn oedd y 'Cynllun cymell', sy'n ceisio gweithio ar lefel y plentyn unigol, ochr yn ochr â hybu ymddygiad cadarnhaol a helpu i ddatblygu sgiliau'r plant o ran meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol.

Mae un o'r plant sydd wedi byw yn Hillside am ddwy flynedd yn falch iawn o fod yn un o'r prif aelodau hiraf ei wasanaeth o grŵp L.O.V.E. Bu'n rhan o sawl newid a gyflwynwyd ac

mae'n teimlo bod y grŵp wedi bod yn llesol iawn, nid yn unig o ran ei amser yn Hillside, ond hefyd o ran ei lesiant personol ei hun. Dywedodd:

"Mae grŵp L.O.V.E wedi caniatáu i mi ddatblygu hyder a helpu fy hunan-barch. Rwy'n teimlo mod i'n cael fy ngwerthfawrogi a bod fy llais yn cael ei glywed pan fydd hi'n amser gwneud newidiadau ac rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arna i bob dydd. Rwy wir yn hoffi bod yn rhan o rywbeth a gwybod y galla i helpu i wneud newidiadau".